# Datganiad Gwyliau Byr
# Gwasanaethau Plant
# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

# 2015

## Cynnwys


1. Y weledigaeth

2. Pwy sy’n gyfrifol?

3. Beth yw gwyliau byr?

4. Pwy sy’n cael cymryd gwyliau byr?

5. Pontio a gwyliau byr

6. Deddfwriaeth, cymhwyster a darpariaeth gwyliau byr presennol

## 1. Y weledigaeth:

Nod cyffredinol Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant ym Merthyr Tudful yw cefnogi plant a phobl ifanc i fyw yn ôl trefniant teuluol parhaol gyda’u teuluoedd amgen eu hunain ble y maen nhw’n ddiogel ac yn cael gofal da ac yn derbyn pob cyfle i dyfu a datblygu i fod yn oedolion annibynnol. Er mwyn cyflawni hyn rydym:

- yn gweithio â gwasanaethau ac asiantaethau partner eraill i sicrhau fod ymyrraeth gynnar a chefnogaeth ar gael a’i fod yn effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc a gafodd eu dynodi i fod yn agored i niwed ac mewn angen.

- darparu gwasanaethau o ansawdd da sy’n lleihau effaith anfantais ac anabledd tra bod deilliannau a chyfleoedd bywyd yn cael eu gwella ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc yr ydym yn eu cefnogi;

- darparu trefniadau cefnogi teulu sy’n cyflenwi sefydlogrwydd tymor hir i blant yn eu teuluoedd eu hunain;

- ymateb yn gyflym ac yn gyson i bryderon am blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o niwed; a

- sicrhau sefydlogrwydd a’r deilliannau gorau posibl i blant sy’n derbyn gofal drwy leoliadau sy’n diwallu eu hanghenion â gofalwyr a gefnogir i ddarparu’r gofal gorau posibl.

Mae cyngor a chefnogaeth aml asiantaeth a gwasanaethau ar gael i blant ag anghenion ychwanegol a phlant ag anableddau a gaiff eu hasesu i fod ‘mewn angen’ yn ôl y diffiniad o ‘mewn angen’ sy’n gynwysedig yn Neddf Plant 1989. Mae gweithio mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc a’u rhieni, gofalwyr ac aelodau eraill perthnasol o’r teulu’n greiddiol i hyn er mwyn hyrwyddo eu cyfranogiad fel bod y gefnogaeth a’r gwasanaethau a ddarperir yn diwallu anghenion y plentyn perthnasol ac yn darparu cefnogaeth, fel sy’n ofynnol, gan y teulu yn ei gyfanrwydd.

Gall plant ag anghenion ychwanegol/anableddau ddefnyddio gwasanaethau cyffredinol (e.e. ysgol, iechyd sylfaenol, hamdden) a gallant hefyd dderbyn gwasanaethau arbenigol oddi wrth asiantaethau gwahanol (e.e. cefnogaeth anghenion addysgol arbennig, Therapydd Galwedigaethol Cymunedol, tâl cludiant). Wedi ei seilio ar asesiad modd, gall Gwasanaethau Plant ddarparu cefnogaeth ychwanegol i’r plentyn a’i deulu i gynorthwyo’r rhieni/gofalwyr i ddiwallu anghenion y plentyn ac i alluogi’r plentyn i fyw’n gyfforddus yn ei gartref a chael mynediad at wasanaethau yn y gymuned. Mae’n bosibl y byddai’r gwasanaethau a ddarperir yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol i aelodau eraill teulu uniongyrchol y plentyn e.e. rhieni a brodyr a chwiorydd, i’w galluogi nhw i barhau i ddarparu’r gofal.

Cydnabyddwn fod adnoddau’n gyfyngedig ac ymgeisiwn at eu rheoli’n gyfrifol gydag integreiddio, dychymyg a chreadigrwydd. Er mwyn gwneud hyn mae angen i ni ddefnyddio’n gwybodaeth ni’n hunain, a’n profiad, adnoddau a sgiliau, a rhai ein cydweithwyr mewn asiantaethau partner a hefyd plant, pobl ifanc a’r teuluoedd eu hunain. Yn greiddiol i’r agenda hwn mae gan yr Awdurdod Lleol y cysyniad o gynhwysiant sy’n tanategu datblygiad gwasanaethau sy’n cefnogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at wasanaethau prif ffrwd ble bynnag y bo’n bosibl. Caiff deilliannau sy’n

bwysig i ddefnyddwyr gwasanaeth aû gofalwyr eu hystyried fel rhan on̂ hagenda darparu gwasanaeth.

## 2. Pwy sy'n gyfrifol?

Aelodau a phrif swyddogion y Cyngor Bwrdeistref Sirol sy'n gyfrifol yn y pen draw am ddarparu gwasanaethau i gefnogi plant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion ychwanegol.

Saif Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor oddi fewn i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol. Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yw Cyfarwyddwr statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, ac y mae hithau, ynghyd â Phennaeth Gwasanaethau Plant, yn rhyddhau eu cyfrifoldebau o ran darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion ychwanegol drwy amrywiaeth o dimau a gwasanaethau. Caiff cefnogaeth i blant sy'n ateb gofynion cymhwyso gyda'r tîm Plant ag Anableddau ei ddarparu gan y tîm hwn, tra bydd timau a gwasanaethau eraill yn gyfranogol o ran darparu gwasanaethau i'r rheini ag anableddau llai cymhleth ac anghenion ychwanegol eraill.

Oddi fewn i Wasanaethau Plant, Prif Swyddog Lles ac ymyrraeth gynnar yw'r swyddog arwain strategol ar gyfer gwyliau byr a'r swyddog arwain gweithredol yw'r Rheolwr Tîm ar gyfer Tîm Plant ag Anableddau.

## 3. Beth yw gwyliau byr?

Cafodd gwyliau byr ei ddisgrifio gan Together for Disabled Children (TDC) fel: "additional service… .to support disabled children and their families; in other words, short breaks are services over and above the universal services expected and available to all families".

Gall gwyliau byr fod am ychydig oriau yn unig, dros nos neu'n hirach a gallant gymryd lle mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys cartref y teulu. Mae Gwyliau byr wedi eu cynllunio i ymgysylltu plant a phobl ifanc anabl mewn un ai gweithgareddau grŵp un i un gyda'r nod o'i fwynhau, lleihau ynysu cymdeithasol gan gyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol a phersonol y plentyn/person ifanc. Mae Gwyliau byr hefyd yn gwella gallu rhieni/gofalwyr i barhau i ofalu am y plentyn a chymryd gofal dros blant eraill a allai fod ganddynt, drwy eu galluogi i ymgymryd â gweithgareddau bob dydd, gofalu am eu lles corfforol a seicolegol eu hunain a chynnal neu ddatblygu eu hyfforddiant addysg a chyfleoedd cyflogaeth.

Mae Gwyliau byr yn fodd o gyflenwi gweithgareddau o hwyl, i’w mwynhau gan blant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion ychwanegol, sy’n diwallu amrywiaeth o anghenion ychwanegol yn cynnwys yr angen am weithgareddau chwaraeon a hamdden, cysylltu â chyfoedion a gweithgareddau cymdeithasol eraill. Gallant fod ar ffurf gweithgareddau ar ôl ysgol, mynediad at hamdden prif ffrwd ac adnoddau arbenigol gyda chefnogaeth gan staff â sgiliau sydd wedi eu hyfforddi’n briodol, yn ystod yr wythnos, penwythnosau neu yn ystod gwyliau’r ysgol. Fel yr uchod, mae gwyliau byr yn rhoi cyfleoedd mawr ofyn amdanynt i rieni/gofalwyr i ail ymegnïo yn eu rôl fel gofalwyr, sydd yn aml yn gofyn llawer oddi wrthynt. Gall gwyliau byr hefyd eu galluogi nhw i dreulio amser o ansawdd gyda’u plant eraill, gyda’i gilydd neu gyflawni tasgau rheoli’r cartref a rhai agweddau o weithgareddau hamdden neu waith na fyddai’n bosibl heb y ddarpariaeth gwyliau byr.

Gall mynediad at ddarpariaeth gwyliau byr hefyd gael ei hwyluso drwy Daliadau Uniongyrchol sy’n caniatáu i rieni/gofalwyr i gyflogi cynorthwywyr personol ac felly’n arbed y gofalwyr rhag dibynnu ar ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol gan greu mwy o hyblygrwydd a rhoi grym iddynt reoli’r broses eu hunain.

## 4. Pwy sy’n cael cymryd gwyliau byr?

Mae’r amrywiaeth o wyliau byr sydd ar gael yn cynnwys darpariaeth gyffredinol, wedi ei thargedu ac arbenigol.

| | | |
|---|---|---|
| Cyffredinol/ wedi ei thargedu | Nid yw’n ofynnol cael asesiad. Gall teuluoedd gysylltu â’r gwasanaeth yn uniongyrchol. Gall teuluoedd gael eu harwain at y gwasanaethau hyn | Chwaraeon i’r anabl,<br><br>The Engine House<br><br>Prosiect Gofalwyr Ifanc Barnardo’s<br><br>Pontio’r Bwlch<br><br>Gwasanaethau Ieuenctid<br><br>Meithrinfeydd Dydd<br><br>Cyn ysgol<br><br>Grwpiau Chwarae<br>Clybiau Ar Ôl Ysgol<br><br>Grwpiau Rhieni, Gofalwyr a Phlant Bach<br><br>Gofalwyr Plant<br><br>Gwasanaethau Ieuenctid |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gweithgareddau Hamdden<br><br>Grwpiau gwisg (e.e. cubs, brownies, guides, scouts) |
| Arbenigol/cymhleth | Mae asesiad yn ofynnol gan ddefnyddio’r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a’u Teuluoedd ar Gyfer Gofal Iechyd Parhaus | Gwasanaeth Cefnogi Sesiynol Cyswllt Hamdden<br><br>Gwasanaethau Eistedd<br><br>Gofal Plant Arbenigol<br><br>Darpariaeth Feithrin a Gofal Dydd<br><br>Taliadau Uniongyrchol<br><br>Gwasanaethau Cynhwysol Cyn Ysgol Law yn Llaw<br><br>Gwasanaethau Gofal Iechyd Arbenigol |

Caiff Gwyliau byr eu cynllunio o gwmpas lefel yr angen i sicrhau eu bod yn brofiad cadarnhaol i’r plentyn a phan fo’n briodol yn bodloni’r deilliannau a ddynodwyd yn yr asesiad a’r cynllun gofal.

Gall rhai plant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion iechyd sylweddol fod yn gymwys am wasanaeth gwyliau byr yn dilyn asesiad angen. Mae Merthyr Tudful yn defnyddio’r ‘Fframwaith ar gyfer Asesu Plant Mewn Angen a’u Teuluoedd’ i ymgymryd â’r asesiad hwn. Fframwaith statudol yw hwn sy’n asesu anghenion plant drwy ystyried eu hanghenion datblygu, capasiti rhianta’r rhieini a ffactorau teuluol ac amgylcheddol.

Pan fo gan blant a phobl ifanc anableddau neu anghenion ychwanegol caiff effaith hyn ar y ffactorau hyn ei ystyried. Bydd rhieni/gofalwyr hefyd yn cael cynnig asesiad gofalwyr a allai ddarparu mewnwelediad ychwanegol i mewn i ba wasanaethau allai fod yn briodol i helpu i gefnogi gofalwr plentyn anabl i gynnal darpariaeth o ofal o ansawdd uchel.

Gall asesiad angen fel yr amlinellir uchod ddarparu gwybodaeth ddigonol fel bo Plant ac Anableddau’n dynodi darpariaeth i’r tîm hwn. Os nad dyma beth sy’n digwydd gall timau neu wasanaethau eraill fod ar gael i gynnig cefnogaeth. Mewn rhai amgylchiadau gellir rhoi rhai gwasanaethau brys yn eu lle yn y tymor byr i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd tra bo’r asesiadau’n cael eu cwblhau.

Bydd natur y gwasanaethau a'r gefnogaeth a ddarperir yn cael eu hamlinellu yn y cynllun gofal a fydd yn cael ei drafod gyda'r plentyn/person ifanc (ble y bo'n bosibl) a'r rhiant/gofalwr. Mae'n bosibl y bydd cymhwysedd penodol o ran meini prawf ar gyfer rhai gwasanaethau gwyliau byr ond nid pob un. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn gynwysedig isod yn y disgrifiad o'r gwasanaethau sydd ar gael.

Caiff cynlluniau gofal eu hadolygu o leiaf bob chwech mis sy'n darparu'r cyfle i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau i ddiwallu anghenion presennol a dynodi a oes angen diweddaru'r asesiad. Mae Gwyliau byr yn wasanaeth hyblyg a gellir ei ddyrannu ar unrhyw bwynt yn y broses asesu ac adolygu gan anelu at ymateb nid yn unig at ddarpariaeth a gynlluniwyd ond at newidiadau yn amgylchiadau'r teulu hefyd. Gall unrhyw newid sydd angen ymateb brys gael ei reoli drwy alwad ffôn yn unig i'r gweithiwr cymdeithasol perthnasol a fydd yn ceisio cael cytundeb oddi wrth reolwr i wella'r gwasanaeth wrth aros am ailasesiad neu adolygiad.
Caiff amrywiaeth y gwasanaethau y mae teuluoedd ym Merthyr Tudful yn eu defnyddio'n gyffredinol eu rhestru yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, mae yna le i fod yn greadigol a datblygu pecynnau cefnogi penodol i ddiwallu anghenion dynodedig plant a'u teuluoedd fel y mae'r adnoddau'n eu caniatáu.

Gall taliadau uniongyrchol alluogi gofalwyr neu bobl ifanc hŷn ag anableddau i wneud eu trefniadau eu hunain am wyliau byr. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn gosod meini prawf ar gyfer defnyddio taliadau uniongyrchol, caiff y rhain eu cynnig gan weithiwr cymdeithasol dynodedig ar ôl i'r angen perthnasol gael ei ddynodi gan yr asesiad.

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd** - mae hwn yn cynnwys Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i gyd. Mae'n cynnig **gwasanaeth un stop** i rieni, gofalwyr sydd angen gofal plant neu'n gofyn am wybodaeth ynghylch Gwasanaethau Plant. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant a gweithio gyda phlant.

**Ffôn: 01685 727400** **www.fis.merthyr.gov.uk**

**The Intake and Early Assessment Team** provide an assessment service. They can provide an assessment that helps to determine if more specialist support may be needed.

**Ffôn: 01685 724506**

## 5. Pontio a gwyliau byr:

Caiff plant y profiad o bontio o ryw fath neu'i gilydd drwy gydol eu bywydau, ond i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol ac anableddau, y mae'n bwysig, o un deg pedwar oed, fod cynllunio gofal, gwasanaethau gofal a chefnogaeth yn dechrau canolbwyntio ar baratoi annibyniaeth yn enwedig yng nghyd-destun bywyd a sgiliau byw'n annibynnol. Gall darpariaeth gwyliau byr wella hyn gan ganolbwyntio ar ddeilliannau sy'n cefnogi datblygu sgiliau a phrofiad.

## 6. Deddfwriaeth, cymhwyster a darpariaeth gwyliau byr presennol

Caiff y datganiad hwn ei ysgrifennu’n unol â o’r Rheoliadau Seibiannau i Ofalwyr Plant Anabl (Cymru) 2012. Wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion ychwanegol mae’r awdurdod yn gweithio oddi mewn i’w gyfrifoldebau o dan Ddeddf Plant 1989, Deddf 2004, Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 a Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000. Yn Ebrill 2016 daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014 yn weithredol. Fel rhan o’n paratoad ar gyfer y newid hwn, bydd mwy o ganolbwyntio ar safbwyntiau gofalwyr a pha wasanaethau sy’n debygol o gefnogi eu rôl. Caiff taliadau uniongyrchol eu defnyddio mewn modd sy’n gynyddol hyblyg, fel dull o ddarparu gwasanaethau er budd teuluoedd. Bydd y ffordd yr ydym yn asesu a darparu gwybodaeth a chefnogaeth yn newid hefyd yn unol â’r ddeddfwriaeth newydd.